# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS TAI

**DYDD** Iau, 6 Medi 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** L.D. Evans (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel Dros Dro
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Swyddfa’r Aelod o’r Bwrdd Gweithredol Dros Tai, Neuadd y Sir, Caerfyrddin:10.00 am - 10.20 am

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 23 MAI, 2018**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 23 Mai, 2018 yn gofnod cywir.**

**3. CYNLLUN HELP TO HEAT**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad yn manylu ar y camau y mae angen eu cymryd er mwyn cyflwyno Rhwymedigaeth Cwmni Ynni y Llywodraeth Ganolog (ECO): Cynllun "Help to Heat" yn Sir Gaerfyrddin. Bwriad y cynllun yw helpu aelwydydd sy'n dioddef tlodi tanwydd, nad ydynt yn derbyn budd-daliadau, ac helpu aelwydydd incwm isel sy'n agored i effeithiau byw mewn cartref oer.
Nodwyd bod y cynllun ar gael i aelwydydd â deiliadaeth breifat yn unig, h.y. y rheiny yn y sector rhentu preifat a pherchen-feddianwyr. Nid oedd tai cymdeithasol yn cael eu cynnwys. Er mwyn i aelwydydd mewn ardal elwa ar y cynllun, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno Datganiad o Fwriad, ac roedd copi ohono ynghlwm wrth yr adroddiad, yn gosod y meini prawf y bwriedir eu defnyddio i nodi aelwydydd a fyddai'n gymwys.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r gwaith o weinyddu'r cynllun uchod fel y nodwyd yn yr adroddiad a'r Datganiad o Fwriad.**

______________________________ ____________________

**AELOD O’R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**